

GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.

LCOS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.

Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad.

OFFERYNNAU STATUDOL DRAFFT

2010 Rhif

Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

DATGANOLI, CYMRU

**Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd
Deddfwriaethol) (Tai) (Diogelwch Tân) 2010**

*Gwnaed - - - - ****

Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1

Yn Llys Palas Buckingham, y *** dydd o ***

Yn bresennol,

Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(a), gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ'r Senedd a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ'r Senedd.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 95(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ôl cyngor a chyda chynngor Ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:-

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) (Diogelwch Tân) 2010 a daw i rym drannoeth y diwrnod y caiff ei wneud.

Diwygiadau i Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

- 2.**—(1) Diwygir Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn unol â'r erthygl hon.
(2) Ym Maes 11 (tai) mewnosoder —

“Mater 11.1

Darparu systemau llethu tân awtomatig mewn mangreoedd preswyl newydd.

Yn y mater hwn, ystyr “mangreoedd preswyl newydd” yw—

- (a) mangreoedd a adeiledir o’r newydd at ddibenion preswyl;
- (b) mangreoedd a drosir o’r newydd at ddibenion preswyl;
- (c) mangreoedd a drosir i’w defnyddio’n un breswylfa newydd neu fwy drwy isrannu un neu fwy o fangreoedd preswyl presennol; a
- (d) mangreoedd a drosir i’w defnyddio’n un breswylfa newydd neu fwy drwy gyfuno mwy nag un fangre breswyl bresennol.”

Enw
Clerc y Cyfrin Gyngor

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Gorchymyn)

Mae’r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”). Effaith y Gorchymyn yw ehangu cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cyfreithiau a elwir yn Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y cyfeirir atynt yn Neddf 2006 fel “Mesurau Cynulliad”). Mae’r cymhwysedd deddfwriaethol a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau cyffredinol ar gyfer arfer y cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw, sy’n gymwys yn rhinwedd adran 94 o Ddeddf 2006 ac Atodlen 5 iddi.

Mae Erthygl 2 yn mewnosod mater 11.1 newydd ym maes 11 (tai) yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Mae mater 11.1 yn ymwneud â darparu systemau llethu tân awtomatig mewn mangreoedd preswyl newydd (gan gynnwys mangreoedd preswyl presennol a drosir i’w defnyddio’n un breswylfa newydd neu fwy drwy eu hisrannu neu eu cyfuno).

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol llawn wedi’i gynnal gan mai unig effaith y Gorchymyn hwn yw rhoi cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu.